Gwasanaeth Rheoli Symptomau
Symptom Management Service

Developed by
GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Addasiadau Gwaith

Pan fydd gan rywun gyflwr iechyd neu anabledd, efallai y bydd angen rhoi newidiadau yn eu lle yn y gwaith i'w cefnogi i wneud eu gwaith. Weithiau gelwir y rhain yn 'addasiadau rhesymol'.

Mae addasiadau rhesymol yn benodol i unigolyn unigol. Gallant gynnwys unrhyw faes gwaith. Nid yw'n ddigon i gyflogwyr ddarparu'r union amodau gwaith â phobl nad ydynt yn anabl i bobl anabl. Rhaid i gyflogwyr wneud addasiadau rhesymol yn ôl y gyfraith. Efallai na fydd angen addasiadau ar rai pobl neu efallai na fydd arnynt eisiau addasiadau er y gallai hyn newid dros amser.



Os ydych chi'n teimlo bod angen addasiadau yn y gwaith, trafodwch nhw gyda'ch rheolwr neu siaradwch ag ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol os oes gan eich gweithle un. Os oes angen cyngor pellach arnoch a'ch bod yn aelod o undeb, siaradwch â chynrychiolydd undeb. Mae ACAS yn cynnig cefnogaeth i unrhyw un https://www.acas.org.uk

## Enghreifftiau o addasiadau rhesymol

| Oriau gwaith a lleoliad | Gwyliau ac amser ychwanegol i orffwys | Newidiadau i'ch tasgau gwaith | Newidiadau i'ch amgylchedd gwaith |
|---|---|---|---|
| • Newid amseroedd gwaith.<br>• Gweithio sifftiau nad ydynt yn olynol i ganiatáu amser adfer rhyngddynt.<br>• Newid patrwm gwaith (fel rhoi'r gorau dros dro i weithio yn ystod y nos).<br>• Lleoliad gwaith yn agosach at gartref i leihau blinder o gymudo.<br>• Cyfuniad o weithio gartref ac yn y gweithle. | • Rhannu cinio yn 2 egwyl lai.<br>• Egwyl amser cinio hirach am amser adfer ychwanegol.<br>• Amser ychwanegol ar gyfer cwblhau tasgau arferol a pheidio â gweithio i derfynau amser tynn. | • Hepgor tasgau penodol sy'n achosi problemau, gan eu disodli â thasg amgen.<br>• Ail-ddosbarthu tasgau ymhlith aelodau'r tîm.<br>• Lleihad dros dro yn y gwaith neu lai o waith cymhleth. | • Defnyddio ystafell dawel i helpu canolbwyntio.<br>• Offer ychwanegol i gefnogi ystum a hyrwyddo gofal cymalau (megis cadair addasadwy, desg uchel / isel, gorffwysydd traed, bysellfwrdd meddal byr, llygoden fertigol).<br>• Offer i gynorthwyo blinder gwybyddol / synhwyraidd (megis clustffonau canslo sŵn, meddalwedd lleferydd i destun). |

*(Delweddau trwy garedigrwydd Vecteezy.com)*

*(Gwybodaeth drwy gwrteisi Therapyddion Galwedigaethol yn nhîm Iechyd Galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)*

E-bost: abb.symptommanagementservice@wales.nhs.uk Ffôn: 03330 415379